# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Technoleg Ddigidol – Fersiwn Ymgynghori



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Technoleg Ddigidol arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'r cymhwyster fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

# Trosolwg o'r cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Technoleg Ddigidol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddatblygu chwilfrydedd am dechnoleg
  - prosesu data er mwyn datrys amrywiaeth eang o broblemau bywyd go iawn
  - deall y ffordd y mae prosesau cyfrifiadurol wedi newid y ffordd rydym yn byw, gweithio, astudio a rhyngweithio â'n gilydd
  - bod yn sylfaen i bob system caledwedd a meddalwedd
  - creu a defnyddio technolegau digidol i'w llawn botensial
  - deall sut mae technolegau digidol yn gweithio
  - deall bod canlyniadau eang, yn gyfreithiol, cymdeithasol a moesol, i'r defnydd o dechnoleg
  - gwneud penderfyniadau gwybodus am ddatblygiad a'r defnydd o dechnoleg yn y dyfodol.

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - gymhwyso dull iterus i ddylunio prosesau drwy gynnig a gwella
  - ymchwilio, archwilio, dadansoddi, datrys problemau a dylunio atebion creadigol
  - ystyried dilemâu moesegol a moesol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dechnoleg.

- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol[3] ar gyfer TGAU Technoleg Ddigidol drwy roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - archwilio prosesau dylunio, datblygu a chymhwyso technoleg, meddalwedd a systemau
  - datblygu sgiliau digidol gan ddefnyddio ystod o dechnoleg a meddalwedd.

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/

[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/egwyddorion-cynnydd/

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-penodol-ar-gyfer-y-maes-hwn



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**Strwythur y Cymhwyster**

| |
|---|
| **Uned 1: Y Byd Digidol**<br>Arholiad digidol yn unig<br>40% o’r cymhwyster |
| **Uned 2: Arferion Digidol**<br>Asesiad di-arholiad<br>40% o’r cymhwyster<br>Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC |
| **Uned 3: Cyfathrebu yn y Byd Digidol**<br>Asesiad di-arholiad<br>20% o’r cymhwyster<br>Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC |

Dyma'r canrannau arfaethedig ar gyfer amcanion asesu'r cymhwyster TGAU Technoleg Ddigidol:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o systemau technoleg ddigidol. | 20% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o systemau technoleg ddigidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. | 25% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso neu lunio barn** er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n diwallu'r anghenion hyn. | 20% |
| **AA4** | **Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau** cynhyrchion digidol sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd penodol. | 35% |

Cymhwyster unedol fydd hwn. Nid yw trefn addysgu'r unedau yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

# Gwybodaeth am Unedau

## Uned 1 – Y Byd Digidol

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng data analog a data digidol, a'r ffordd y caiff data eu mesur a'u storio
- archwilio ffyrdd y caiff systemau technoleg ddigidol eu datblygu, a sut maent yn gweithredu, yn cyfleu ac yn diogelu data
- dangos ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae dulliau cyfathrebu digidol yn effeithio ar bobl a sefydliadau
- archwilio materion moesegol a chyfreithiol sy'n ymwneud â diogelu data
- ystyried esblygiad technolegau digidol.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- systemau technoleg ddigidol
- gwerth technoleg ddigidol
- safbwyntiau ar dechnoleg ddigidol

Gweler Adran 4 y Meini Prawf Cymeradwyo yn Atodiad A am fanylion y cynnwys y mae'n rhaid iddo fod yn rhan o'r uned.

Asesir yr uned drwy arholiad digidol a fydd ar gael, fel y'i pennir yn y Meini Prawf Cymeradwyo yn Atodiad A, yn y gyfres haf yn ail flwyddyn yr astudio, a phob blwyddyn ar ôl hynny. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA2. Caiff AA1 ac AA2 eu pwysoli'n gyfartal.

## Uned 2 – Arferion Digidol

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- defnyddio a threfnu data'n bwrpasol
- cynllunio a datblygu cynhyrchion digidol sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer cynulleidfa a phwrpas penodol
- profi a gwerthuso llwyddiant cynhyrchion digidol.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- holi data mewn taenlenni
- datblygu cynhyrchion digidol wedi'u llywio gan ddata

Gweler Adran 4 y Meini Prawf Cymeradwyo yn Atodiad A am fanylion y cynnwys y mae'n rhaid iddo fod yn rhan o'r uned.

Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad a fydd ar gael, fel y'i pennir yn y Meini Prawf Cymeradwyo yn Atodiad A, am y tro cyntaf ym mis Medi ym mlwyddyn gyntaf yr astudio, a phob blwyddyn ar ôl hynny. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA3 ac AA4. Bydd pwysoli uwch am AA4. Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol, ei marcio gan y ganolfan, a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

## Uned 3 – Cyfathrebu yn y Byd Digidol

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- archwilio marchnata ar-lein digidol
- creu asedau ar gyfer y cyfryngau digidol
- cynllunio a chreu ymgyrch marchnata digidol

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau marchnata ar-lein
- creu asedau digidol a chynllunio cyfathrebiadau digidol

Gweler Adran 4 y Meini Prawf Cymeradwyo yn Atodiad A am fanylion y cynnwys y mae'n rhaid iddo fod yn rhan o'r uned.


© WJEC CBAC Ltd 2024.
DRAFT

Caiff yr uned ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, fel y'i pennir yn y Meini Prawf Cymeradwyo yn Atodiad A, a fydd ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi ym mlwyddyn gyntaf yr astudio, a phob blwyddyn ar ôl hynny. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Caiff AA2 ac AA3 eu pwysoli'n gyfartal, bydd pwysoli uwch am AA4. Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol, ei marcio gan y ganolfan, a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 60% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad. Mae hyn yn peri rhai heriau posibl o ran hydrinedd i ganolfannau a dysgwyr oherwydd bod cyfran uwch o asesu di-arholiad. Rydym yn cynnig lleihau hyn drwy ledaenu'r llwyth gwaith a'r baich asesu i ganolfannau a dysgwyr drwy ganiatáu i ganolfannau strwythuro trefn yr unedau mewn ffordd sy'n addas i'w cyd-destun. Bydd pob asesiad di-arholiad ar gael yn y flwyddyn astudio gyntaf yn barod i'w gyflwyno i CBAC yng nghyfres haf y flwyddyn astudio gyntaf. Caiff y ddau asesiad di-arholiad eu marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC. Mae posibilrwydd y bydd hyn yn effeithio ar hydrinedd, ond bydd yn galluogi canolfannau i farcio asesiadau di-arholiad ar adeg sy'n hwylus iddynt.

Oherwydd natur greadigol, iterus a digidol y pwnc, a'r cyfnod estynedig o amser sy'n cael ei dreulio ar asesu di-arholiad, rydym yn ystyried cael lefel ganolig o reolaeth ar gyfer yr asesiad di-arholiad er mwyn sicrhau hydrinedd. Fodd bynnag, gan fod angen sicrhau tegwch i ddysgwyr bydd angen ystyried hyn yn ofalus yn ystod y gwaith datblygu.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cymhwyster yn gyfle i ddysgwyr ddeall technolegau digidol presennol, y ffordd maen nhw'n cael eu cymhwyso a'u heffaith ar gymdeithas.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad rydym yn eu cynnig (Unedau 2 a 3) yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol.Er mwyn sicrhau bod asesiad di-arholiad Uned 2 ac Uned 3 yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau y bydd yr uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres arholiadau. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau ac ym mhob cyfres.Byddwn yn cymedroli sampl o waith y ganolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd.

Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys Uned 1 yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny, byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau a arholir yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson. Rydym mewn cysylltiad â Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru o ran gallu'r canolfannau i ddarparu'r asesiad ar-sgrin. Byddwn yn parhau i ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

# ATODIAD A

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Technoleg Ddigidol Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

**Pwrpas**

1. Rhaid i'r **TGAU Technoleg Ddigidol:**
1.1. gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
1.2. adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol ac sy'n cysylltu â'r *Cwricwlwm i Gymru* ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
1.4. galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cynnal dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
1.5. darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

**Nodau**

2. Rhaid i'r **TGAU Technoleg Ddigidol:**
2.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â thechnoleg ddigidol
2.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon.

3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Technoleg Ddigidol** gefnogi *Dysgwyr* i:
3.1. ddod yn ddefnyddwyr annibynnol, hyderus a gwybodus o dechnolegau digidol presennol a newydd a rhai sy'n datblygu
3.2. datblygu gwybodaeth am wahanol systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir ar draws ystod o sectorau galwedigaethol
3.3. deall yr effaith y gall technolegau digidol ei chael ar unigolion a chymdeithas ehangach a'r ffyrdd y gallant sicrhau newid
3.4. datblygu sgiliau wrth drefnu a dadansoddi data i nodi tueddiadau a chynulleidfaoedd
3.5. dod yn grewyr cynhyrchion digidol, mewn amrywiaeth o fformatau ac at amrywiaeth o ddibenion, sy'n diwallu anghenion dilys penodedig
3.6. datblygu sgiliau trosglwyddadwy wrth ddefnyddio ystod o galedwedd a meddalwedd
3.7. datblygu eu dealltwriaeth o gylch oes datblygu systemau (SDLC) a sut y gall syniadau ddod yn gynhyrchion.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**Amcanion Asesu**

14. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o systemau technoleg ddigidol. | 20% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o systemau technoleg ddigidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. | 25% |
| **AA3** | **Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth** er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n diwallu'r anghenion hyn. | 20% |
| **AA4** | **Datblygu, profi a gwerthuso** cynhyrchion digidol sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd penodol. | 35% |

**Cynllun asesu**

15. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Technoleg Ddigidol** fod yn unedol.

16. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Technoleg Ddigidol** ddangos yr ystod yng nghyfran y marciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob uned.

17. Rhaid i fanyleb **TGAU Technoleg Ddigidol** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

| Uned | Trefniadau |
|---|---|
| **Uned 1**<br>Y Byd Digidol | Rhaid asesu'r uned trwy arholiad digidol yn unig sy'n:<br>• cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu<br>• cynnwys mathau o eitemau sy'n cael eu gwella gan y llwyfan profi digidol<br>• cyfrif am 40% o gyfanswm y pwysoliad wrth gyfrifo gradd derfynol y cymhwyster. |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Uned 2**<br>Arferion Digidol | • rhaid ei hasesu drwy asesiad di-arholiad<br>• rhaid i'r corff dyfarnu ei osod<br>• rhaid sicrhau bod tystiolaeth a asesir yn fewnol yn cael ei *Chymedroli'n* allanol gan y corff dyfarnu<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* ymgymryd â phroject ymarferol lle cynhyrchir canlyniadau diriaethol<br>• rhaid i'r corff dyfarnu ryddhau set neu setiau data sylweddol, ar ffurf taenlen, i *Ganolfannau* ar gyfer pob cyfle asesu<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* adnabod cynulleidfa, angen cynulleidfa neu duedd drwy ddadansoddi set neu setiau data a ryddheir gan y corff dyfarnu<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* gynllunio cynnyrch digidol sy'n cwrdd â'r gofynion a nodir ym mharagraff 6, ar gyfer y gynulleidfa, angen cynulleidfa neu duedd a nodwyd<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* ddatblygu cynnyrch neu gynhyrchion digidol yn y ffurf y maent wedi'i dewis, wedi'u teilwra ar gyfer y gynulleidfa, angen cynulleidfa neu duedd a nodwyd<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* brofi eu cynhyrchion digidol a gwerthuso i ba raddau y mae'r cynnyrch y maent wedi'i ddatblygu yn bodloni'r duedd, angen cynulleidfa neu gynulleidfa a nodwyd<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* gyflwyno eu cynhyrchion digidol mewn fformat lle gellir dangos tystiolaeth glir o'r sgiliau technegol a ddefnyddiwyd<br>• rhaid iddi gyfrif am 40% o gyfanswm y pwysoliad wrth gyfrifo gradd derfynol y cymhwyster. |
| **Uned 3**<br>Cyfathrebu yn y Byd Digidol | • rhaid ei hasesu drwy asesiad di-arholiad<br>• rhaid i'r corff dyfarnu ei osod<br>• rhaid sicrhau bod tystiolaeth a asesir yn fewnol yn cael ei *Chymedroli'n* allanol gan y corff dyfarnu<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu roi briffiau blynyddol i *Ganolfannau*<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* gynllunio a chreu ymgyrch cyfathrebu digidol ar-lein<br>• rhaid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* greu asedau digidol ar gyfer yr ymgyrch farchnata, gan gynnwys delweddau a delweddau byw symudol<br>• rhaid caniatáu i *Ddysgwyr* gyflwyno eu canfyddiadau mewn amrywiaeth o fformatau digidol<br>• ni ddylid ei gwneud yn ofynnol i *Ddysgwyr* gyhoeddi eu hymgyrchoedd ar-lein<br>• rhaid iddi gyfrif am 20% o gyfanswm y pwysoliad wrth gyfrifo gradd derfynol y cymhwyster. |

18. Rhaid i'r corff dyfarnu bennu ei reolau ynghylch ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer **TGAU Technoleg Ddigidol** yn unol â'r *Amodau a Gofynion TGAU Cenedlaethol.*



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT